

**Cofnodion Cyfarfod o'r PWYLLGOR TROSOLWIG A CHRAFFU CYMUNEDAU  
FFYNIANNUS a gynhaliwyd o bell ddydd Gwener, 11 Mawrth 2022**

**YN BRESENNOL:** Y Cyngorydd Marc Davies (Cadeirydd), y Cyngorwyr John Adams-Lewis, Clive Davies, Gethin Davies, Ifan Davies, Steve Davies, Keith Evans, Gwyn James, Lyndon Lloyd MBE, Dai Mason a John Roberts.

**HEFYD YN BRESENNOL:** Y Cyngorwyr Rhodri Evans, Catherine Hughes, Gareth Lloyd, Ray Quant MBE ac Alun Williams (Aelodau Cabinet).

Gavin Bown, Pennaeth Gweithrediadau Canolbarth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru.

**SWYDDOGION YN BRESENNOL:** Alan Davies, Rheolwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cynllunio; Lisa Evans, Swyddog Safonau a Chraffu a Neris Morgans, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

(10.30am - 12.32pm)

**1 Ymddiheuriadau**

- i) Ymddiheurodd y Cyngorwyr Euros Davies (Is-gadeirydd), Gareth Davies, Meirion Davies ac Elizabeth Evans am na fedrent fod yn bresennol yn y cyfarfod.
- ii) Ymddiheurodd Sarah Groves-Phillips, Rheolwr y Gwasanaeth Polisi Cynllunio am na fedrai fod yn bresennol yn y cyfarfod.

**2 Datgelu buddiant personol (gan gynnwys datganiadau chwipio) Atgoffir aelodau am eu cyfrifoldeb personol yn datgan unrhyw fudd personol a budd sydd yn rhagfarnu yn gysylltiedig â materion a gynhwysir yn yr agenda hwn yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a Chod Ymddygiad Aelodau. Yn ogystal, mae'n rhaid i Aelodau ddatgan unrhyw chwip plaid gwaharddedig a roddwyd ar Aelod yng nghyswllt y cyfarfod yn ôl Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.**

Ni ddatgelodd yr un Aelod o'r Pwyllgor fuddiant personol na buddiant a oedd yn rhagfarnu (nac ychwaith unrhyw ddatganiadau chwipio).

**3 Trafodaeth Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ar gynllunio a lefelau ffosffad**  
Ymddiheurodd Gavin Bown am na fedrai fod yn bresennol yn y cyfarfod a gynhaliwyd ym mis Ionawr. Rhoddodd Gavin Bown gyflwyniad i'r Pwyllgor gan amlinellu'r canlynol:

- Cefndir
- Afonydd ACA yng Nghymru
- Safonau
- Strwythur y Targedau Newydd
- Trosolwig o'r afonydd ACA yng Nghymru (gan gynnwys mapiau) cyn canolbwyntio ar Afon Teifi
- Goblygiadau
- Ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru

- Byrddau Rheoli Maethynnau (gan gynnwys Bwrdd Rheoli Maethynnau Afon Teifi)
- Grwpiau Allanol
- Y Camau Nesaf – ledled Cymru / Afon Teifi

Ar ôl y cyflwyniad, cafodd Aelodau'r Pwyllgor y cyfle i holi Gavin Bown. Dyma'r prif bwyntiau / pryderon a godwyd:

- Gofynnodd un o'r Aelodau a oedd Cyfoeth Naturiol Cymru yn fodlon ei fod wedi cydymffurfio â phum ffordd o weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol cyn cyhoeddi'r cyngor gwreiddiol. Wrth ymateb, dywedodd Gavin Bown fod Cyfoeth Naturiol Cymru yn gyffredinol yn ceisio dysgu gwersi o bob elfen o'r broses a bod hyn yn cynnwys creu fframwaith i sicrhau bod unrhyw drafodaeth ac ymgynghoriad yn cael eu cynnal yn y ffordd briodol yn y dyfodol.
- Roedd Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynnal nifer o brosiectau mawr ar draws Cymru ar hyn o bryd i wella ansawdd dŵr a oedd wedi'i lygru gan waith cloddio mwynau. Byddai Gavin Bown yn rhoi diweddariad ysgrifenedig i Aelodau'r Pwyllgor am y sefyllfa yng Nghwm Rheidol.
- Holodd un o'r Aelodau a oedd Cyfoeth Naturiol Cymru wedi troi at ymgynghorwyr wrth baratoi ar gyfer gwaith lliniaru posibl er bod data ar gael am y sefyllfa ar Afon Gwy a bod Awdurdodau Lleol eraill wedi comisiynu tystiolaeth gyffelyb. Wrth ymateb, dywedwyd bod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi pwysu am sefydlu Grŵp Goruchwylio er mwyn osgoi dyblygu gwaith a sicrhau bod y cyhoedd yn cael gwerth am arian.
- Roedd cyfrifiannell maethynnau Sir Gaerfyrddin wedi'i datblygu'n benodol ar gyfer Afon Tywi ond byddai gwaith yn cael ei wneud fel rhan o'r Grŵp Goruchwylio i ystyried cyfrifiannellau eraill a datblygu cyfrifiannell a fyddai'n addas ar gyfer pob afon. Roedd angen ystyried sut y gallai Cyfoeth Naturiol Cymru reoli allbynnau'r cyfrifiannellau.
- Byddai Cyfoeth Naturiol Cymru ynghyd â phob Bwrdd Rheoli Maethynnau yn rhan o'r Grŵp Gorchwylio i sicrhau ffordd gydgysylltiedig o weithio ond roedd yn bwysig deall bod gan bob afon ei gwahanol anghenion ac y byddai'r atebion yn amrywio.
- Wrth ymateb i gwestiwn am ansawdd dŵr, esboniodd Gavin Bown fod y safonau diwygiedig yn amrywio rhwng afonydd gan eu bod yn ystyried y cefndir naturiol. Ychwanegodd fod y safonau yn gyffredinol rhwng 50 ac 80% yn llymach na'r rhai blaenorol.
- Roedd Cyfoeth Naturiol Cymru wedi atal yr Awdurdod Lleol rhag datblygu ymhellach ar Afon Teifi (gan effeithio ar 40% o Geredigion), am fod yr afon mewn ardal cadwraeth arbennig. Gwnaed hyn ar ôl cynnal asesiad cydymffurfio yr oedd yn rhaid i'r adran gynllunio ei dilyn. Serch hynny, fel rhan o'r broses ymgynghori ar geisiadau cynllunio, roedd Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymgynghoreion statudol ond roeddent yn ymateb drwy ddweud nad oedd ganddynt wrthwynebiadau i geisiadau i ddatblygu anheddau newydd ar Afon Teifi. Codwyd pryderon ynghylch hyn gan fod hyn yn rhoi'r argraff i'r cyhoedd mai'r adran gynllunio / Aelodau Etholedig oedd yn atal datblygiadau yn hytrach na Chyfoeth Naturiol Cymru ac felly roedd angen tryloywder. Awgrymodd Gavin Bown y dylai enghreifftiau gael eu hanfon ato fel y gallai ymchwilio iddynt.

- Esboniodd Alan Davies fod materion yn ymwneud â ffosffadau yn golygu bod tua 40 o geisiadau heb gael caniatâd eto a dyna'r unig beth oedd yn eu dal yn ôl. Ychwanegodd fod yr adran yn ymddiheuro'n barhaus i'r cyhoedd oherwydd diffyg ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru. Cadarnhaodd Gavin Bown fod gwaith yn cael ei wneud ar hyn o bryd ar y Canllawiau Ffosffadau ond bod y gwaith yn cymryd ychydig yn fwy o amser na'r disgwyl er mwyn sicrhau bod y cyngor yn gywir a'i fod o gymorth i Awdurdodau Lleol. Ar ôl i'r canllawiau gael eu cwblhau, byddent yn cael eu rhannu ar unwaith â'r adrannau cynllunio.
- Amcan Cyfoeth Naturiol Cymru oedd lleihau lefelau'r ffosffadau i sicrhau na fyddai cyfyngiadau ar y gwaith oedd angen ei wneud. Roedd Gavin Bown yn ymwybodol bod y cyfarfod gyda Dŵr Cymru o bosib wedi canolbwyntio mwy ar garthion ac felly nid oedd cynnwys rhyw lawer am hyn yn ei gyflwyniad ef.
- Roedd Aelodau'r Pwyllgor yn teimlo bod y byd amaeth yn cael ei feio gan fod awgrym wedi'i wneud bod 80% o'r ffosffadau yn deillio o'r diwydiant amaeth. Nid oedd neb yn siŵr a oedd rhywun wedi cysylltu ag adrannau amaeth y prifysgolion (gan gynnwys Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (IBERS) ym Mhrifysgol Aberystwyth) o ystyried eu gwybodaeth a'u harbenigedd; Dywedodd Gavin Bown y byddai'n ymchwilio i hyn.
- Roedd ystyriaeth yn cael ei rhoi ar hyn o bryd i'r posibilrwydd o sefydlu is-grŵp amaethyddol cenedlaethol. Pe byddai'n cael ei sefydlu, byddai adrannau amaeth y prifysgolion ynghyd ag undebau'r ffermwyr (e.e. yr FUW a'r NFU) yn cael eu gwahodd i fod yn bresennol. Cadarnhaodd y Cynghorydd Rhodri Evans (Cadeirydd Bwrdd Rheoli Maethynnau Ceredigion) y byddai cynrychiolydd o'r sector amaethyddol yn cael ei wahodd i gyfarfod Bwrdd Rheoli Maethynnau Ceredigion. Dywedodd Gavin Bown y byddai'n gwirio a oedd undebau'r ffermwyr yn rhan o'r Grŵp Goruchwylio.
- O ran y Byrddau Rheoli Maethynnau, nid oedd Gavin Bown yn ymwybodol o unrhyw gefnogaeth ariannol oddi wrth Gyfoeth Naturiol Cymru na Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu cynlluniau rheoli ac nid oedd ychwaith yn ymwybodol y byddai rhywun yn goruchwylio'r byrddau yn yr un modd ag yr oedd Natural England yn ei wneud yn Lloegr. Yn sgil pryderon na fyddai dim cynnydd yn cael ei wneud fel arall, byddai Gavin Bown yn codi'r mater hwn ar lefel uwch. Gofynnwyd hefyd i'r Cynghorydd Rhodri Evans fel y Cadeirydd yng Ngheredigion godi hyn gyda Chadeiryddion eraill y Byrddau Rheoli Maethynnau. Roedd y Byrddau Rheoli Maethynnau yn cael eu hannog i gydweithio â'i gilydd a chysylltu â'r Grŵp Goruchwylio lle bynnag bo modd.
- Ar ôl cyfraniad gan un o'r Aelodau, dywedodd Gavin Bown nad oedd yn ymwybodol o brofiad Norfolk o ran ffosffadau ond nododd fod trafodaethau wedi'u cynnal gydag asiantaethau eraill yn Lloegr. Byddai felly yn codi'r mater hwn ynghyd â'r wybodaeth ynglŷn â'r cwmnïau yn Ewrop a oedd yn arbenigo mewn tanciau i gasglu ffosffadau gyda'i gydweithwyr.
- Roedd Afon Hirwaun ac Afon Dulais yn rhan o'r Prosiect Gwella Cynefinoedd Pysgodfeydd. Byddai Gavin Bown yn anfon rhagor o wybodaeth am y gwaith hwn at yr Aelodau.

- Mynegwyd pryder ynghylch y ffordd yr oedd y cyngor cynllunio interim wedi'i gyhoeddi ym mis Ionawr 2021 gan nad oedd cyfnod o ras wedi'i roi. Dywedwyd bod busnesau a sefydliadau yn gwneud cynlluniau at y dyfodol ond nad oedd Cyfoeth Naturiol Cymru wedi ystyried hyn. Hefyd, dywedwyd y dylai'r Byrddau Rheoli Maethynnau a'r Canllawiau Ffosffadau wedi bod ar waith cyn cyflwyno'r newidiadau.
- Roedd Aelodau'r Pwyllgor yn teimlo'n gryf nad oedd ardaloedd gwledig fel Ceredigion yn cael eu trin yn deg a gofynnwyd cwestiynau paham nad oedd manylion ynghylch yr Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Morol wedi'u cyhoeddi eto. Dywedodd Gavin Bown nad oedd yn ymwybodol o unrhyw resymau gwleidyddol na rhesymau eraill paham fod yna oedi wedi bod o ran cyhoeddi'r data hwn.
- Unwaith y byddai'r manylion am yr Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Morol yn cael eu cyhoeddi, gallai 90% o Geredigion wynebu sefyllfa lle na fyddai modd datblygu o gwbl hyd nes y byddai mesurau lliniaru ar waith. Nid oedd dim byd mewn grym ar hyn o bryd. Nododd Gavin Bown y gallai unrhyw beth a ddysgwyd o'r gwaith ar Ardaloedd Cadwraeth Arbennig yr Afonydd gael ei ddefnyddio yn y dyfodol wrth ganfod atebion i broblemau a allai godi o ran yr Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Morol.
- Roedd swyddogion Dŵr Cymru wedi rhoi sicrwydd mai ychydig iawn o ffosffadau oedd yn cael ei ryddhau o'r Safle Trin Dŵr Gwastraff. Roedd angen buddsoddiad sylweddol yn y Safle Trin Dŵr Gwastraff er mwyn gosod y cyfarpar angenrheidiol ar gyfer tynnu ffosffadau allan o'r dŵr ond nid oedd y gwaith hwn wedi'i gynnwys yng nghynlluniau Dŵr Cymru hyd yma a dywedwyd bod hyn yn bryder.
- Codwyd pryderon mawr bod Ardaloedd Cadwraeth Arbennig yr Afonydd yr oedd Cyfoeth Naturiol Cymru wedi'u cyflwyno wedi golygu bod yn rhaid rhoi'r gorau i ddatblygiadau mewn mannau o Geredigion ond dywedwyd nad oedd Cyfoeth Naturiol Cymru yn barod i fynd i'r afael â hyn. Teimlai Aelodau'r Pwyllgor fod hyn yn cael effaith andwyol ar yr economi leol gan gynnwys cyfleoedd gwaith. Ychwanegwyd bod hyn yn effeithio ar benderfyniadau pobl o ran byw a gweithio yn yr ardal, ac yn benodol pobl ifanc a'u teuluoedd. Teimlwyd yn gryf bod angen i Gyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru gynnig cyfarwyddyd clir ynghylch y ffordd ymlaen a chanfod ateb i'r broblem hon.
- Esboniodd Gavin Bown ei fod yn deall yn llwyr bwysigrwydd y mater hwn i Aelodau'r Pwyllgor a'r angen i sicrhau bod y gwaith hwn yn cael ei wneud ar fyrder. Ychwanegodd ei bod yn allweddol i bawb gydweithio â'i gilydd er mwyn canfod ateb ac mai dyna oedd Cyfoeth Naturiol Cymru yn ceisio ei wneud yn genedlaethol a fesul dalgylch. Dywedodd y byddai'n trafod y materion a godwyd yn y cyfarfod heddiw â'r bobl briodol.

Ar ran Aelodau'r Pwyllgor, diolchodd y Cadeirydd i Gavin Bown o Gyfoeth Naturiol Cymru am fod yn bresennol yn y cyfarfod ac am ei gyfraniad gwerthfawr.

Yn dilyn awgrym, cytunodd Aelodau'r Pwyllgor y byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu at Gadeirydd Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru i fynegi'r pryderon a godwyd yn ystod y cyfarfod heddiw

**4 Cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod blaenorol ac ystyried unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion**

Penderfynodd y Pwyllgor gadarnhau cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 18 Chwefror 2022 yn rhai cywir.

Materion yn codi:  
Dim.

Dywedodd Gethin Davies iddo sôn yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Ionawr 2022 fod y Gwaith Trin Dŵr Gwastraff hefyd yn rhyddhau elfion i draeth Aber-porth yn ogystal â harbwr Aberaeron.

**5 Unrhyw Fusnes Arall**

Ymddiheurodd y Cadeirydd am ddefnyddio iaith amhriodol mewn cyfarfod blaenorol.

Esboniodd y Cadeirydd mai hwn fyddai cyfarfod olaf y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus o dan y weinyddiaeth hon. Diolchodd i bawb am eu cydweithrediad a dymunodd yn dda i bawb.

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu  
Cymunedau Ffyniannus a gynhaliwyd ar Dydd Mercher, 27 Gorffennaf  
2022**

Cadeirydd: \_\_\_\_\_

Dyddiad: \_\_\_\_\_